

# Sut i gyfathrebu'n dda â phlant byddar



Mae gan bob plentyn bach, gan gynnwys plant byddar, anghenion unigol. Efallai fydd plant â byddardod wedi colli eu clyw i wahanol raddau, bydd ganddynt wahanol dechnoleg i gefnogi hyn, a gwahanol ddewisiadau o ran dulliau cyfathrebu.

Edrych ar ein cyngor isod ar gyfathrebu â phlant byddar, ble bynnag y maen nhw ar y sbectrwm byddardod.

Caiff y term 'byddar' ei ddefnyddio yma i gynrychioli sbectrwm cyfan byddardod.

## Rho sylw i ddewisiadau cyfathrebu dy blentyn bach

Mae'n bwysig gwybod pa ddull cyfathrebu sydd orau gan dy blentyn bach. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan **Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar**. Bydd amlygiad i'r **dull y mae wedi'i ddewis** yn hanfodol yn ei ddatblygiad, ac mae'n bwysig i rieni allu gwneud dewis gwybodus.

Gall anghenion gwrando dy blentyn bach newid wrth iddo ddatblygu, a gallai hyn effeithio ar y dull cyfathrebu sydd fwyaf effeithiol iddo. Gall plant byddar hefyd ddefnyddio technoleg i'w helpu i glywed synau, ac mae'n hanfodol eu bod nhw'n ei defnyddio yn gyson yn ôl yr angen.

## Denu ei sylw

- Os wyt i'n agos, cyffwrdd fraich dy blentyn neu guro ar fwrdd yn ysgafn.
- Chwifia i'w gyfeiriad neu cod dy law/braich lle bydd y gallu dy weld.
- Efallai y bydd nesáu o'r tu ôl yn ei ddychryn, felly ceisia ddod o'r ochr neu'r blaen.

## Wyneba dy blentyn bach pan fyddi di'n siarad

- Cer wyneb yn wyneb ar lefel dy blentyn bach gan ddangos iddo dy fod yn talu sylw.
- Gwna'n siŵr bod digon o olau yn yr ystafell a sefyll gyda dy wyneb tuag at y golau.
- Ceisia osgoi symud o amgylch gormod.
- Dal tegan neu wrthrych yn agos at dy wyneb i annog rhyngweithio wyneb yn wyneb.
- Chwarae gemau fel pî-pô i ddatblygu disgwyliad. Amrywia dy lais, mynegiant dy wyneb, ac ystumiau i annog dy blentyn bach i dalu sylw.

- Defnyddia giwiau gweledol lle bo modd; arwyddo, ystumiau, pwyntio, gwrthrychau, lluniau, ac ati. Gallet ti bwyntio at beth rwyd ti'n sôn amdano a defnyddio'r arwydd neu ystum i gefnogi'r hyn rwyd ti wedi'i ddweud, e.e. arwyddo yfed a phwyntio at y gwpan wrth ofyn a yw eisiau diod.

Rho gynnig ar ddefnyddio ciwiau gweledol dair gwaith heddiw!

## Siarada'n glir ac yn naturiol

- Gwna'n siŵr bod cyn lleied â phosibl o sŵn yn y cefndir.
- Gwna'r siŵr bod dy geg bob amser i'w weld, a dangosa emosiwn a mynegiant yn dy wyneb.
- Paid â gorchuddio dy geg â dy ddwylo gan y gall hyn newid y sain.
- Gwna bwnc y sgwrs yn glir.
- Cymerwch eich tro i siarad, un ar y tro.
- Rho amser i dy blentyn bach brosesu gwybodaeth. Ceisia wneud eich sgysiau'n ystyrlon, diddorol, a hwyl!
- Cofia, gall plant ddysgu nifer o ieithoedd llafar ochr yn ochr ag iaith arwyddo.

I wybod mwy

Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS)

Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT)

Deaf Awareness: Face me when you talk (fideo)